



Nifer y busnesau sydd wedi cofrestru:

11,094




Nifer yr unigolion sydd wedi cofrestru:

23,053

Y Rhwydwaith Arddangos


Monitro twf glaswellt ar safle arddangos Erw Fawr

Mae monitro twf glaswellt a chynhyrchiant yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant busnes da byw, ac yn ystod yr amodau heriol a welwyd yn ystod gwanwyn 2020, mae'n bendant wedi talu ar ei ganfed. Mae'r graff isod yn dangos faint o laswellt a gynhyrchwyd mewn rhai o'r caeau ar draws y fferm.



Mae mesur y glaswellt yn ofalus bob wythnos nid yn unig yn caniatáu'r ffermwr i wneud penderfyniadau tymor byw ynglŷn â'r cylchdro pori, ond hefyd yn nodi pa gaeau a phadogau sy'n perfformio'n dda drwy gydol y tymor pori. Ar fferm Erw Fawr, mae'r gwahaniaeth o ran cyfanswm y twf (tDM/ha) rhwng y caeau sy'n perfformio orau a gwaethaf ychydig dros 5 tonnelli o ddeunydd sych. Bydd cynyddu twf glaswellt cyfartalog fesul hectar yn galluogi'r fferm i gynyddu'r gyfradd stocio (unedau da byw) neu i silweirio mwy o borthiant o ansawdd uchel, gan leihau costau'r porthiant a brynir i mewn. Ar ddiwedd y flwyddyn, gellir gosod y data hwn ochr yn ochr â chynllun rheoli maetholion i dargedu gweithgareddau i adfer y pridd neu i lunio polisi ail-hadu newydd, a bydd modd adolygu effaithiau'r gweithgareddau hyn ar dwf y glaswellt yn rhwydd.

Gall gwybodaeth yn deillio o gasglu mesuriadau glaswellt hefyd helpu gyda phenderfyniadau rheolaeth fel y dangosir yn y graff isod.



Fel nifer o ffermydd yn ystod mis Mai a Mehefin, cafodd twf glaswellt ei gyfyngu ar fferm Erw Fawr gan ddiffyg lleithder yn y pridd a fyddai fel arfer yn fwy tebygol o ddigwydd ar ddiwedd Gorffennaf ac Awst. Er gwaethaf lleoliad ffafriol y fferm ar gyfer tyfu glaswellt ar ochr orllewinol Ynys Môn, gostyngodd y gyfradd twf i 23kgDM/ha/dydd yn unig yn ystod cyfnod lle byddai 90-100kgDM wedi cael ei gynhyrchu fel arfer. Roedd hyn yn golygu eu bod wedi sychu gwartheg yn gynnar, cynyddu'r dwysfwyd yn y parlwr ac ategu silwair at y diet er mwyn arafu'r cylchdro.

Magu heffrod llaeth ar fferm Llys Dinmael



Heffrod yn pori ar fferm Llys Dinmael, 21 Mehefin 2020

Mae Llys Dinmael yn fferm ucheldir, ond mae ganddi gapasiti digonol ar gyfer cynhyrchu glaswellt. Gyda hynny mewn golwg, mae'r fferm ddefaid hon wedi arallgyfeirio i fagu heffrod llaeth er mwyn defnyddio eu sgiliau rheoli glaswellt. Mae'r heffrod yn cael eu pwysu'n wythnosol i sicrhau bod pwysau targed yn cael ei gyrraedd, ac yn ystod gwanwyn 2020, penderfynwyd y dylid eu troi at y tarw ynghynt na'r bwriad ar bwysau targed o 370kg. Roedd hyn yn bosibl gan fod y gwartheg wedi cyrraedd eu cyfraddau twf targed yn gynt na'r disgwyl. Y penderfyniad busnes a oedd yn sylfaen i'r newid hwn oedd y disgwyliad y bydd galw am heffrod erbyn gwanwyn 2021 yn dilyn blwyddyn heriol sydd wedi arwain at ddifa mwy o stoc er mwyn lleihau costau ar ffermydd.

Dechreuwyd bridio'r heffrod ar ddiwedd mis Mai, gan arsylwi cyfnodau gofyn tarw yn naturiol heb ddefnyddio unrhyw dechnoleg. Er bod hyn wedi bod yn llwyddiannus, nodwyd hefyd y gallai cydamseru fod o gymorth ar gyfer rheolaeth ac arwain at grŵp tynnach a fydd yn lloia ar yr un pryd.

Mae Llys Dinmael wedi elwa o'r canlynol:

- gosod pwysau targed a monitro gwartheg yn rheolaidd
- mesur y borfa'n wythnosol i sicrhau cyflenwad cyson o laswellt.

Mae'r ffactorau hyn wedi galluogi'r busnes i addasu i sefyllfa bresennol y farchnad gan eu bod yn gwybod yn union sut oedd y gwartheg yn perfformio.

Manteision plannu coed ar gyfer busnes fferm – gweminar a gyflwynwyd gan Iwan Parry, Tillhill Forestry

Gall coetiroedd gynnig nifer o fuddion i'r busnes fferm gan gynnwys:



Cymorth sydd ar gael drwy gynllun Creu Coetir Glastir:

Categori Coetir	Grant (£ hectar)		Ffensio £/M
	Blwyddyn 0 0	Blwyddyn 0 1-12	
Coetir Cymysg Gwell	£3,600	£60	
Coetir Brodorol – Carbon	£4,500	£60	
Coetir Brodorol – Bioamrywiaeth	£3,000	£60	£3.48
Amaeth-Goedwigaeth – Coed Gwasgaredig	£1,600	£30	
Grant Cynllun Creu Coetir		£350	

Mae Cyswllt Ffermio yn hybu Creu Coetir Glastir trwy nifer o wahanol wasanaethau gan gynnwys gweminarau, podlediadau, clinigau a'r gwasanaeth cynghori.

Mae rhagor o fanylion ar gael yma.



Astudiaeth Achos

Safle Arddangos Tynyberth

Bu swyddog technegol Cyswllt Ffermio yn gweithio gyda'r perchennog tir ar fferm Tynyberth i ddarparu cyngor ynglŷn â phlannu o'r newydd, a'r cod carbon coetir yn benodol.

- 48ha o goetir cymysg gwell
- Plannu – 50% Pyrwydd Sitka, 15% Ffynidwydden Douglas, 10% Pyrwydd Norwy, 15% Bedw a 10% Gwern
- Plannu coed Conwydd ar gyfradd o 2,700 coeden/ha (gofyniad y grant yw 2500 coeden/ha)
- Plannu coed llydanddail cymysg ar gyfradd o 2,500 coeden/ha
- Paratoi'r tir – aredig, pentyrru, plannu uniongyrchol
- Ffensio – 2,200m o ffensys newydd
- Grant cyfalaf – o'r Cynllun Creu Coetir Glastir - £180,000 i sefydlu'r coetir (wedi talu am gostau'r holl waith a'r deunyddiau)
- Taliad blynyddol o £19,680 am 12 mlynedd



Mae'r lluniau uchod yn dangos y tir cyn ac ar ôl plannu'r coetir.

EIP

5 O BROSIECTAU YN YMWNEUD Â DA BYW WEDI'U CYMERADWYO

yn gweithio gyda

24 FFERMWWR A CHOEDWIGWR



Cyflwyno defaid cynffondeu i Gymru er mwyn ateb galwr farchnad yn y DU

Y prosiect EIP hwn fydd y cyntaf o'i fath i gyflwyno defaid Damara, sef brîd o ddefaid cynffon dew sy'n boblogaidd iawn mewn rhai cymunedau ethnig, i farchnad y DU, a'r nod yw y bydd Cymru'n arwain y ffordd o ran datblygu'r brîd yma o ddefaid. Nod y prosiect tair blynedd hwn, sy'n cynnwys dau ffermwr o Ogledd Cymru, yw ymchwilio i ddichonolrwydd magu defaid Damara pur yn ogystal â'u croesi gyda mamogiaid Romney, Texel croes, a Llŷn, a monitro sut maen nhw'n addasu i hinsawdd fwynach a gwlypach Cymru.

Yn dilyn trosglwyddo embryonau a ffrwythloni artiffisial, cafwyd llwyddiant gyda 50 mamog yn beichiogi, a ganwyd yr wŷn yn ystod gwanwyn 2020. Mae'r wŷn yn ffynnu a bydd monitro parhaus yn asesu sut y byddant yn perfformio. Bydd ffermwyr yn anelu at gynyddu niferoedd yn raddol ac yna byddant mewn sefyllfa i ymchwilio i gyfleoedd ar y farchnad, yn uniongyrchol yn ogystal â thrwy gyfanwerthwyr.

Cliciwch [yma](#) i weld yr wŷn Damara cyntaf i gael eu geni yng Nghymru.

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Dyma'r erthyglau technegol a gyhoeddwyd:

- CYNHYRCHU CIG OEN A CHYMRU: ÔL TROED AMGYLCHEDDOL HOLISTAIDD
- CNYDAU SY'N GWRTHSEFYLL SYCHDER AT Y DYFODOL
- MWY O LAETH O FWY O BORTHANT
- YCHWANEGU GWERTH AT LAETH BUWCH
- FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR GYNHYRCHIANT DIADELLOEDD DEFAID
- DEFNYDDIO GWLÂN MEWN COMPOST A DEFNYDDIAU AMGEN ERAILL

Gwasanaeth Cyngori

Nifer y busnesau sydd wedi derbyn cymorth o dan gategoriâu Busnes y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn:



Derbyniodd 64 o unigolion gymorth drwy Gategoriâu Busnes y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn

Adborth gan fusnesau ynglŷn â'r Gwasanaeth Cyngori hwn:

"Mae'r gwasanaeth wedi rhoi gwell dealltwriaeth i mi o elw gros y fenter a'r elw sydd ei angen ar y busnes."

"Cynllun busnes trefnus a chyllideb wedi'i greu ar gyfer ein busnes."

"Cyngor defnyddiol iawn a fydd yn helpu ein busnes yn y dyfodol."

Grwpiau Trafod



Estynnodd grŵp trafod bîff yng Ngogledd Cymru wahoddiad i Nerys Llewelyn Jones, Agri Advisors Legal LLP i siarad gyda'r grŵp i drafod amrywiaeth o faterion, o olyniaeth i hawliau tenantiaeth, yn ystod eu cyfarfod digidol.

Amlygodd Nerys bwysigrwydd cynllunio ymlaen llaw ar gyfer pob busnes, ynghyd â phwysigrwydd cael cynllun hirdymor. Dylid ystyried olyniaeth cyn gynted â phosibl, fel bod modd i'r busnes weithio tuag at ei nod hirdymor.

Trafodwyd treth anedd amaethyddol, gyda rhybudd ynglŷn â phroblemau posibl.

Roedd gan un aelod o'r grŵp broblem yn ymwneud â derbyn rhybudd bod tenantiaeth tymor hir ar fin dod i ben cyn yr amser a nodwyd yn flaenorol. Roedd Nerys yn gallu egluro hawliau'r tenant, a'i sefyllfa o ran terfynu'r cytundeb. Bydd hyn yn galluogi'r tenant i fod yn fwy hyderus o ran ei hawliau fel tenant wrth fynd at asiant y tirfeddiannwr.

Bu'r grŵp yn edrych ar gymorth Cyswllt Ffermio ar gyfer olyniaeth a materion tenantiaeth, a'r hyn sydd ar gael pe byddai unrhyw aelod angen cymhorthfa ddigidol un-i-un gyda Nerys.

Rhaglen Fentora



CYFANSWM O 514 WEDI CAEL EU MENTORA



23 O UNIGOLION NEWYDD WEDI CAEL EU MENTORA YN YSTODY CYFNOD HWN

Y pynciau mwyaf poblogaidd yn ystod y cyfnod hwn oedd:




Prif nodweddion busnesau yn y traean uchaf – 09/06/2020

Yn ystod y weminar hon, bu John Crimes, ymgynghorydd amaethyddol gyda CARA Wales yn trafod sut mae'r busnesau yn y traean uchaf yn perfformio, gan ganolbwyntio'n bennaf ar agweddau ariannol a thechnegol y busnesau hyn. Rhoddodd y drafodaeth gyfle i wrandawyr gymharu perfformiad eu busnes yn uniongyrchol gyda'r traean uchaf. Roedd 81 o wylwyr unigol yn bresennol yn y weminar.

Cliciwch [yma](#) i wyllo.

Mae'r siart isod yn dangos rhaniad y gwylwyr yn ôl rhyw



Cynllun Datblygu Personol

CRÛWYD **135** CYNLLUN DATBLYGU PERSONOL YN YSTOD Y CYFNOD HWN



Agrisgôp

Gan weithio gyda'i gilydd fel grŵp, gall aelodau Agrisgôp ddysgu sgiliau rheolaeth newydd, cael mynediad at wybodaeth arbenigol ac archwilio a datblygu dyfodol hyfyw ar eu cyfer nhw, eu teuluoedd a'u busnes.

21 GRŴP GWEITHREDOL gyda **220** O AELODAU wedi mynychu cyfanswm o **46** CYFARFOD YN YSTOD Y CYFNOD HWN

Iechyd planhigion

Cymorth ariannol

Brandio a marchnata


Peiriannau gwerthu llaeth

Rheoli ata

Cymorthfeydd

82 CYMHORTHFA gyda **555** O FYNICHWYR

Dyma tabl yn dangos prif sectorau'r busnesau a fynychodd pob cymhorthfa.



Adborth gan fuddiolwyr:

"Mae'r gymhorthfa wedi rhoi'r adnoddau angenrheidiol i'w hystyried yn y broses o newid strwythur y busnes."

"Mae'r gymhorthfa wedi dangos i ni pa mor bwysig yw olyniaeth a'i bod hi'n bwysig iawn i baratoi eich busnes ymlaen llaw."


"Cawsom lawer o wybodaeth a chyngor er mwyn gwella perfformiad ein diadell yn barod ar gyfer y tymor wyndda nesaf."

"Llwyddodd y gymhorthfa rheoli staff ddysgu i ni sut i drin ein fferm fel busnes masnachol, a rhoddodd lawer o gyngor i ni ar sut i ymdrin â gweithwyr ar y fferm."

Mentor

604 O DDATGANIADAU DIDDORDEB WEDI CAEL EU CYFLWYNO ERS DECHRAU'R RHAGLEN MENTRO

235 O GYFRANOGWYR GWEITHREDOL



YN CHWILIO AM BARTNERIAETH (wedi'u cofrestru'n llawn)

WEDI CANFOD PARTNERIAETH

WEDI SEFYDLU MENTER ARY CYD

46,793 ERW O DIR AR GAEL



E-ddysgu

Dyma rai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

FFERMIO CYDWEITHREDOLA FFERMIO CYFRAN



MEINCNODI FFERM



CYNLLUNIO A CHYLLID



TAW



Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

Cyrsiau Hyfforddi

Enw'r Cwrs	Nifer yr unigiolion a dderbyniodd hyfforddiant yn ystod y cyfnod
Cymorth Cyntaf mewn Argyfwng yn y Gweithle	14
Cynllunio a Datblygu Busnes	7
Marchnata eich Busnes	5
Rheoli Timoedd Achlysurol a Thymhorol	5
Arwain a Rheoli	4

Rhaglen TGCh

LEFEL 1	LEFEL 2	LEFEL 3
Cwrs hyfforddi 6 wythnos o hyd = 0 unigolyn wedi derbyn hyfforddiant	Hyfforddiant un-i-un = 45 unigolyn wedi derbyn hyfforddiant	Gweithdai = 91 wedi mynychu

Roedd themâu'r gweithdai'n cynnwys:

- Creu gwefan
- Cyflwyniad i dechnoleg drôn a'u manteision
- Cyflwyniad i dechnoleg drôn a'u manteision
- Cadw gwell cofnodion a gwneud gwell penderfyniadau gan ddefnyddio Agriwebb